Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Ymchwiliad dilynol i ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Chwefror 2025

## 1. Cefndir

**1.** Adroddiad dilynol yw hwn i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o fis Awst 2022: Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

**2.** Gwnaed 21 o argymhellion gennym, a derbyniwyd pob un ohonynt gan Lywodraeth Cymru yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor.[1]

**3.** Trafodwyd yr adroddiad a'i argymhellion yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Tachwedd 2022.[2]

**4.** Ym mis Mehefin 2023, ysgrifennodd Teithio Ymlaen atom yn cwestiynu cynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu ein hargymhellion.[3] Dywedon nhw: "*To our knowledge not one of the recommendations in your committee's report has yet been actioned*".

**5.** Yn unol â'n Strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd i ddyfalbarhau er mwyn gwneud gwahaniaeth i'r ddarpariaeth o lywodraeth leol a thai yng Nghymru ac i ystyried ymchwiliadau fel materion byw, fe wnaethom gytuno i gynnal sesiynau craffu pellach gyda Llywodraeth Cymru i fonitro cynnydd o ran gweithredu ein hargymhellion.

[1] Llywodraeth Cymru, Ymateb i'r argymhellion o adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
[2] Cyfarfod Llawn Cofnod y Trafodion, 23 Tachwedd 2023, eitem 8
[3] Llythyr gan Teithio Ymlaen, Adroddiad dilynol i'r Ymchwiliad i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, 16 Mehefin 2023

**6.** Yn ystod ein sesiwn graffu ddilynol gyntaf, dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd, Jane Hutt AS, ar 5 Hydref 2023, y bu cynnydd araf iawn ac er gwaethaf y ffaith fod cyllid ar gael, nid oedd cynlluniau wedi datblygu.[4]

**7.** Ar 7 Chwefror 2024, fe wnaethom gytuno i gynnal ymchwiliad dilynol byr i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid ac aelodau'r gymuned ar gynnydd awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru o ran darparu safleoedd.

**8.** Mae rhagor o wybodaeth gefndir yn ymwneud â'r ymchwiliad ar gael ar ein gwefan.

## Casglu tystiolaeth

**9.** Ar 3 Hydref 2024, cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar gennym gyda:

- Sipsiwn a Theithwyr Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLlLC")
- Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a Chwip ("yr Ysgrifennydd Cabinet").

**10.** Derbyniwyd tystiolaeth gennym gan:

- Trudy Aspinwall, TGP Cymru: Gwasanaeth Eirioli Teithio Ymlaen
- Allison Hulmes, Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol Romani a Theithwyr
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- CLlLC
- Llywodraeth Cymru

**11.** Ar 5 Rhagfyr 2024, cynhaliwyd grŵp ffocws hybrid gennym gydag wyth aelod o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr ar draws pedwar rhanbarth y Senedd. Mae crynodeb o'r materion allweddol a godwyd ar gael ar ein gwefan.[5]

[4] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 94
[5] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Nodyn o'r grŵp ffocws, 5 Rhagfyr 2024

# 2. Ein canfyddiad allweddol

**12.** Mae'n amlwg o'n hymchwiliad dilynol mai prin iawn fu'r cynnydd a wnaed i ddiwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Roedd y diffyg cynnydd yn arbennig o amlwg o'n grŵp ffocws gydag aelodau o'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.[6] Roedd consensws ymhlith y cyfranwyr mai ychydig iawn neu ddim cynnydd y maent wedi ei weld o ran datblygu a chynnal a chadw safleoedd ers ymgysylltu â ni ddiwethaf yn 2022; ni fu unrhyw welliant o ran ymgysylltiad gan awdurdodau lleol chwaith. Rydym yn siomedig dros ben mai dyma'r achos ac rydym eisiau gweld hyn yn cael ei ddatrys fel mater o frys. Dylai cynnydd fod wedi cael ei wneud. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a ddioddefir gan un o'r grwpiau mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas. Gofynnwn i'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu diweddariad manwl ar gynnydd o ran gweithredu pob un o'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad gwreiddiol.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion yn ein hadroddiad o 2022 ar ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

# 3. Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr (AauLST)

## Cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr

**13.** Mae data a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2024 ar garafannau, lleiniau a safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn dangos bod 1,282 o garafannau yng Nghymru ar 18 Gorffennaf 2024, ac roedd 1,095 (85 y cant) ar safleoedd awdurdodedig. O'r rhai ar safleoedd awdurdodedig, roedd 60 y cant ar safleoedd rhent cymdeithasol (awdurdod lleol) a 40 y cant ar safleoedd a ariennir yn breifat.

**14.** Mae data ar safleoedd heb eu hawdurdodi yn dangos bod:

- 89 o garafannau ar safleoedd heb eu hawdurdodi ar dir sy'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr, sy'n 7 y cant o'r holl garafannau;

[6] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Nodyn o'r grŵp ffocws, 5 Rhagfyr 2024

- 98 o garafannau (8 y cant o'r holl garafannau) ar safleoedd heb eu hawdurdodi nad yw'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr;
- Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 187 o garafannau ar safleoedd heb eu hawdurdodi, cynnydd o 24 y cant ers Gorffennaf 2023, pan roedd 151 o garafannau ar safleoedd heb eu hawdurdodi.
- Cynyddodd nifer y safleoedd heb eu hawdurdodi o 39 ym mis Gorffennaf 2023 i 53 ym mis Gorffennaf 2024
- O ran y lleiniau gwirioneddol sydd ar gael yng Nghymru, ym mis Gorffennaf 2024, roedd;
  - 466 o leiniau ar safleoedd a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.
  - Roedd 464 yn lleiniau preswyl, ac roedd 2 yn lleiniau tramwy.
  - Dywedodd chwe awdurdod lleol bod ganddynt ddim lleiniau ar gael.
  - Sir Benfro, Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r nifer fwyaf o leiniau.
  - Torfaen oedd yr unig awdurdod lleol i hysbysu am unrhyw leiniau tramwy, a chofnodwyd bod y ddau yn wag.

**15.** Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrthym mai prin iawn fu'r cynnydd o ran darparu safleoedd yng Nghymru, er bod Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cyflwyno dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol.[7] Yn ôl Gypsies and Travellers Wales:

> *"We have seen the provision of some pitches in some areas, but there's still nowhere near the need being met at all… the 2015 GTAAs evidenced a need for over 350 pitches. So, I've done a Freedom of Information Act to see how far we are to meeting that. I've only received seven responses, but I think there are about 35 pitches from those seven responses, and four areas have zero pitches. So, although there is some work under way, I don't think we're anywhere near to meeting the need".8*

[7]Tystiolaeth ysgrifenedig, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
[8]Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 6

**16.** Clywsom hefyd fod pobl yn byw ar leiniau sy'n gwbl orlawn ac yn aml mae'n rhaid iddynt gyflwyno eu hunain yn ddigartref er mwyn gallu sicrhau llain pan fydd un ar gael.[9]

## Proses AauLST

**17.** Mae Rhan 3 Deddf Tai 2014 yn gwneud darpariaeth i Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr (AauLST) gael eu cynnal bob 5 mlynedd gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd disgwyl i'r cyfnod adolygu diwethaf ddod i ben ar 24 Chwefror 2021, ond cafodd ei ymestyn am flwyddyn yn dilyn y pandemig.

**18.** Mewn llythyr gan Teithio Ymlaen at y Pwyllgor ym mis Mehefin 2023, dywedodd bod y broses adolygi AauLST wedi dod i ben yn llwyr a bod hyn yn effeithio ar gynllunio a datblygu safleoedd newydd neu gynllunio darpariaeth dramwy".[10]

**19.** Ym mis Awst 2024, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, bod holl AauLST Cylch 2 wedi cael eu cymeradwyo.[11] Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn nodi y byddai'r cylch nesaf o AauLST yn cwmpasu'r cyfnod 2022–2027, a bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno asesiad newydd erbyn Chwefror 2027.[12]

**20.** Argymhellwyd gennym yn flaenorol bod Llywodraeth Cymru yn asesu ai'r broses AauLST yw'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o asesu anghenion llety'r gymuned teithwyr.

**21.** Yn ystod ein grŵp ffocws gydag aelodau'r gymuned, dywedodd un cyfrannwr nad oedd llawer o bobl yn cymryd rhan yn yr AauLST gan nad oeddent yn deall beth oedd pwrpas yr arolwg ac roedd hyn yn cyfrannu at yr AauLST yn nodi nifer is o leiniau na'r hyn oedd ei angen. Er enghraifft, esboniodd un cyfrannwr bod yr awdurdod lleol, heb adeiladu unrhyw safleoedd ychwanegol na gwario unrhyw arian, wedi llwyddo i fodloni ei brinder o 23 o leiniau trwy gysylltu â pherchnogion safleoedd preifat teuluol (yr oeddent yn gwrthwynebu iddynt yn flaenorol) a chynnig estyniadau i'w safleoedd, sy'n hygyrch i aelodau agos eu

[9] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 12
[10] Llythyr gan Teithio Ymlaen, Adroddiad dilynol i'r Ymchwiliad i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, 16 Mehefin 2023
[11] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 14 Awst 2024
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 3 Hydref 2024, papur 2

teulu yn unig. Yn ôl y cyfrannwr, os nad yw'r lleiniau hyn yn hygyrch i holl aelodau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, ni ddylid eu cyfrif yn yr AauLST.[13]

**22.** Fe wnaeth Cyngor Sir Penfro fynegi pryderon tebyg:

> *"we're also very aware that the people who put the applications in are not necessarily those who were identified as actually having that short-term need by the GTAA. So, numerically, we've ticked the box, but in reality it might be that it's actually different people who've brought the applications forward to those who had the need."14*

**23.** Yn ôl Cyngor Sir Fynwy, mae cynnal AauLST ar sail barhaus, gan nodi bod yr angen yn yr ardaloedd yn newid drwy'r amser.[15] Roedd Cyngor Sir y Fflint yn cytuno nad yw cynnal asesiadau bob tair neu bum mlynedd yn adlewyrchu natur dros dro y teuluoedd sy'n symud i'r ardal heb rybudd, sy'n caffael tir ar fyr rybudd.[16] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"the GTAA shouldn't necessarily be the panacea to decision making from all agencies. It should enable an informed decision and encourage that dialogue between the families, the planning agents, the local authority and the wider community. But, at the moment, I think we're almost using the GTAA to reinforce a planning decision that doesn't necessarily put the families at the forefront of the decision-making process."*[17]

**24.** Fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hefyd alw am system sy'n caniatáu adolygu'r ffigurau yn flynyddol neu'n barhaus i adlewyrchu'r aelwydydd sy'n dod i mewn i ardal neu'n symud o fewn ardal.[18]

**25.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru yn adolygu proses a chanllawiau AauLST, ond eu bod yn credu bod y fframwaith yn briodol ar hyn o bryd.[19] Maent hefyd yn edrych ar fonitro ac uwchgyfeirio, i alluogi

---

[13] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Nodyn o'r grŵp ffocws, 5 Rhagfyr 2024
[14] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 134
[15] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 112
[16] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 119
[17] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 119
[18] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 124
[19] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 265

proses fwy cadarn ar gyfer pan ystyrir nad yw cynnwys neu ddadansoddiadau AauLST yn ddigon cadarn.[20] Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

> *"We've spent a lot of time to try and build relationships with local authorities so that it's a partnership working together to look at what they have in their GTAAs and how we can help them to meet those needs and meet those duties...then there's a very critical piece of work that this review needs to bring into play, which is around discussions with community members themselves, particularly those who are more transient in nature, and understanding what their needs are from the GTAA process."*[21]

## Darpariaeth dramwy

**26.** Mae'r AauLST i fod i asesu'r angen preswyl (parhaol) am safleoedd a lleiniau, yn ogystal â'r ddarpariaeth dramwy (y rhai sy'n teithio drwodd ac sydd angen mannau i aros). Yn ystod ein hymchwiliad yn 2022, tynnwyd sylw at y diffyg darpariaeth dramwy yn gyson fel problem.

**27.** Mae'r data diweddaraf o'r cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr (Ionawr 2024) yn dangos mai dwy lain dramwy sydd ar gael yng Nghymru gyfan. Nid yw'r ffigur hwn wedi newid am y rhan helaeth o ddegawd. Nod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol oedd creu "rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth dramwy" yng Nghymru, â tharged i greu o leiaf 5 llain "yng ngogledd a de Cymru" erbyn 2025.

**28.** Nododd Teithio Ymlaen yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

> *"Most of the GTAAs that we are aware of, now signed off, did not find a need for transit provision, many spoke about using the 'negotiated stopping' model as an alternative but without, to date, providing much leadership or commitment to making this a reality."*[22]

**29.** Dywedodd CLlLC yn ei thystiolaeth ysgrifenedig ei bod wedi cael ei hysbysu bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu comisiynu gwaith ymchwil ychwanegol i wneud argymhellion o ran darpariaeth dramwy. Aeth ymlaen drwy nodi:

---

[20] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 268
[21] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 269
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, Trudy Aspinwall, TGP Cymru: Gwasanaeth Eirioli Teithio Ymlaen

> *"Officials confirmed that the current GTAAs from individual Councils do not provide a sufficient evidence base to support recommendations for the establishment of an effective network of transit sites provision."*[23]

**30.** Nododd tystiolaeth ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Cabinet yr adborth gan awdurdodau lleol a oedd yn sôn am yr angen am "sail dystiolaeth genedlaethol" i ddeall symudiad Sipsiwn a Theithwyr "i mewn i Gymru ac allan o Gymru ac i mewn i ffiniau awdurdodau lleol ac allan ohonynt". Fel y cyfryw, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau proses gaffael ar gyfer sefydliad i ymgymryd â'r gwaith hwn ochr yn ochr â'r gymuned.[24]

**31.** Clywsom fod Cyngor Sir y Fflint yn cynnal ymarferion mapio o amgylch lleoliadau sy'n cael eu mynychu ar fwy nag un achlysur, i ddeall a oes rheswm pam mae'r teuluoedd eu hunain yn mynd i'r lleoliadau hynny.[25] Fodd bynnag, er bod sail dystiolaeth i ddweud bod angen darparu safleoedd tramwy, clywsom fod sicrhau caniatâd cynllunio a chyllid grant cyfalaf ar gyfer safleoedd yn dasg lafurus.[26]

**32.** Yn ôl Sipsiwn a Theithwyr Cymru trafod â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr a darganfod ganddyn nhw ble maen nhw'n credu y byddai eu hangen fyddai'r wybodaeth fwyaf gwerthfawr o ran cynllunio darpariaeth dramwy.[27] Aethant ymlaen i ddweud bod Sipsiwn a Theithwyr o hyd sy'n hoffi parhau â'r traddodiad teithio yn y ffordd y maen nhw wedi ei wneud erioed ond nodwyd ganddynt fod hyn yn llawer anoddach nawr ac yn peri llawer mwy o straen, oherwydd y gofynnir iddynt symud ymlaen yn gyson, y diffyg cyfleusterau gwaredu gwastraff a thoiledau, ac adlach gan gymunedau ehangach. Fe ddywedon nhw:

> *"it's very difficult to dispose of your rubbish—it's difficult for people living in houses to dispose of their rubbish because of restrictions, let alone when there's not provision to dispose of your rubbish, if that makes sense."*[28]

**33.** Clywsom fod rhai awdurdodau lleol, er eu bod yn brin iawn, yn darparu gwasanaethau gwaredu sbwriel ac y byddai aelodau'r gymuned yn hapus i dalu

---

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLlLC
[24] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 3 Hydref 2024, papur 2
[25] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 137
[26] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 138
[27] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 37
[28] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 40

am gael gwared ar sbwriel a darpariaeth o doiledau.[29] Un enghraifft o'r fath yw Ynys Môn. Clywsom eu bod yn gweithio gyda'r gymuned yn lleol a chyda'r Sipsiwn a'r Teithwyr sy'n teithio drwy Ynys Môn i baratoi safle dros dro lle maent yn goddef gwersylloedd. Eglurwyd ganddynt nad yw'n safle parhaol ac nad yw'n ddigonol yn yr hirdymor, ond eu bod yn gallu gweithio gyda'r gymuned ymlaen llaw i sicrhau bod y safle'n cael ei baratoi ar eu cyfer a chyfleusterau yn cael eu darparu.[30]

**34.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod saith llain dramwy yng Nghymru ond bod angen safleoedd arnom[31]. Aeth ymlaen i ddweud bod asesu anghenion tramwy yn hanfodol i'r AauLST[32] a bod angen iddynt gael golwg Cymru gyfan ar ba safleoedd tramwy sydd eu hangen.[33]

**35.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn galonogol iawn bod Ynys Môn wedi cyflwyno cais am gyllid ar gyfer man aros a gytunwyd, gan ychwanegu y gallai mannau aros a gytunwyd helpu i fynd i'r afael â'r angen am ddarpariaeth dramwy.[34] Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn teimlo bod angen iddynt gael darpariaeth dramwy briodol—safleoedd a lleiniau hefyd.[35] Clywsom felly fod Llywodraeth Cymru yn caffael sefydliad annibynnol i wneud gwaith ymchwil ar ddarpariaeth dramwy ac yn ei gwneud yn gwbl hanfodol bod pa bynnag sefydliad y dyfernir y contract hwnnw iddo yn deall y bydd angen iddynt gynnwys aelodau'r gymuned.[36]

## Ein barn ni

**36.** Argymhellwyd gennym yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru asesu ai'r broses AauLST yw'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r broses AauLST bresennol yn rhy anhyblyg – dylid adolygu anghenion llety yn barhaus a dylai awdurdodau lleol sicrhau ymgysylltiad ystyrlon â Sipsiwn a Theithwyr fel bod asesiadau wir yn adlewyrchu eu hanghenion llety.

**37.** Nid ydym yn eglur a yw proses a chanllawiau AauLST yn cael eu hadolygu o gofio bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi dweud wrthym fod y fframwaith yn briodol ar hyn o bryd. Felly, rydym yn ail-bwysleisio ein hargymhelliad gwreiddiol

[29] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 54
[30] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 142
[31] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 284
[32] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 285
[33] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 286
[34] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 287
[35] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 290
[36] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 293

y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ai'r broses AauLST yw'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Yn rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gwella ymgysylltiad â Sipsiwn a Theithwyr i asesu anghenion llety yn gywir.

**Casgliad 1.** Yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 1 yr adroddiad hwn, dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ba gamau y mae wedi eu cymryd i adolygu'r broses AauLST gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd i wella ymgysylltiad â Sipsiwn a Theithwyr.

**38.** Clywsom fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn edrych ar fonitro ac uwchgyfeirio pan ystyrir nad yw cynnwys neu ddadansoddiadau AauLST yn ddigon cadarn. Rydym yn croesawu'r gwaith hwn ac yn gobeithio y bydd yn datblygu yn gyflym. Yn rhan o hyn, rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried sut y mae'n monitro gweithrediad awdurdodau lleol o ganfyddiadau'r AauLST. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu safleoedd a dylai hon gael ei gorfodi gan Lywodraeth Cymru.

**Casgliad 2.** Yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 1 yr adroddiad hwn, dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'n monitro ac yn sicrhau cydymffurfiad awdurdodau lleol â'r broses AauLST a gweithrediad canfyddiadau AauLST.

**39.** O ystyried y diffyg darpariaeth dramwy yng Nghymru, nid yw'n syndod bod hon yn thema gyffredin yn ein hymchwiliadau gwreiddiol a dilynol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod saith llain dramwy ar gael yng Nghymru, ond mae'r data diweddaraf yn dangos dwy lain yn unig. Byddem yn ddiolchgar o gael eglurder ynghylch y mater hwn.

**40.** Rydym yn synnu nad oedd y mwyafrif o AauLST yn ystyried bod angen darpariaeth dramwy. Felly, rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gomisiynu gwaith ymchwil ychwanegol i wneud argymhellion o ran darpariaeth dramwy a byddem yn ddiolchgar pe gallai yr Ysgrifennydd Cabinet ddarparu mwy o wybodaeth am y gwaith ymchwil hwn, gan gynnwys amserlenni. Rydym yn pryderu y gallai fod yn amser hir iawn tan y byddwn yn gweld darpariaeth dramwy ddigonol Nghymru. O gofio bod wir ei hangen, hoffem weld y gwaith hwn yn cael ei wneud yn gyflym. Mae hefyd yn hanfodol bod lleisiau Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu clywed yn rhan o'r gwaith hwn i sicrhau bod y datblygiad o ddarpariaeth dramwy yn diwallu eu hanghenion teithio.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r data diweddaraf i'r Pwyllgor ar nifer y lleiniau tramwy yng Nghymru a'n diweddaru ar sut y mae'n bwriadu cynyddu'r ddarpariaeth dramwy yng Nghymru, gan gynnwys sut y bydd yn sicrhau bod anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu diwallu.

**41.** Roedd gennym ddiddordeb mewn clywed am y mannau aros a gytunwyd yn Ynys Môn ac rydym yn credu bod hwn yn gysyniad y dylid ei archwilio a'i gyflwyno ymhellach, ar yr amod ei fod yn gweithio i aelodau'r gymuned. Er nad ydym o’r farn ei fod yn disodli'r angen am ddarpariaeth dramwy barhaol, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau’r ddarpariaeth o safleoedd dros dro wrth i ni aros am ateb tymor hwy. Yn rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol ar atebion gwaredu gwastraff i osgoi costau a phroblemau eraill.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac aelodau o'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr i ddarparu mannau aros ychwanegol a gytunwyd dros dro. Mae'n rhaid i bob man aros a gytunwyd yng Nghymru ddarparu gwasanaethau gwastraff a glanweithdra priodol.

# 4. Y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

**42.** Mae'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi bod ar gael i awdurdodau lleol ar ryw ffurf neu'i gilydd ers dros 15 mlynedd. Mae’r grant yno i gynorthwyo datblygiad safleoedd newydd a gall awdurdodau lleol hefyd ei ddefnyddio i ailwampio llety ac amwynderau presennol ar safleoedd awdurdod lleol.

**43.** Argymhellwyd yn ein hadroddiad yn 2022:

> *“Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pob opsiwn posibl ar gyfer ariannu anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys a ddylid ehangu’r meini prawf ar gyfer y Grant Cyfalaf Safleoedd er mwyn i awdurdodau lleol allu prynu tir ar gyfer datblygu safleoedd newydd a sut y gellid defnyddio cyllid i gefnogi datblygiad safleoedd preifat.”*

**44.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet mewn llythyr a anfonwyd atom ym mis Awst 2024 bod newid wedi cael ei wneud i feini prawf y grant, y gellid hefyd ei ddefnyddio bellach i “brynu tir ar gyfer safleoedd”, a chyhoeddwyd canllawiau i

awdurdodau lleol ym mis Ebrill.[37] Mae copi o'r canllawiau, a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Fynwy, yn nodi'r canlynol:

> *"In exceptional cases land acquisition may be considered, but land remediation costs and feasibility studies are ineligible. This includes, amongst other things, costs arising from investigating or rectifying former mine workings, landfill or archaeological digs."*

**45.** Clywsom fod y Gymdeithas Gwaith Cymdeithasol Romani a Theithwyr yn falch bod modd defnyddio'r grant i brynu tir erbyn hyn.[38] Fodd bynnag, nid oedd pob tyst yn ymwybodol o'r datblygiad hwn.[39]

**46.** Nododd un cyfrannwr at y grŵp ffocws mai'r unig ffordd y gall aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr fyw yng ngogledd Cymru yw ar safle awdurdod lleol. Fe wnaethon nhw alw ar Lywodraeth Cymru i helpu gydag ariannu safleoedd preifat, er mwyn galluogi pobl i fyw ar eu tir eu hunain, yn hytrach nag ariannu safleoedd drwy awdurdodau lleol yn unig, yn enwedig gan fod awdurdodau lleol wedi atal Sipsiwn a Theithwyr rhag gallu byw ar y ffordd. Dywedodd un cyfrannwr "dylem fod yn berchen ar y safleoedd hyn, yn eu rhedeg ac yn eu rheoli. Mae angen i ni fod yn gyfrifol am ein bywydau ein hunain." Roedd cyfranwyr eraill yn cytuno y byddai eu sefyllfa fyw yn llawer gwell pe baent yn gallu bod yn berchen ar eu safleoedd eu hunain a'u rheoli.[40]

**47.** Mewn ymateb i ba un a oedd ganddynt unrhyw safbwyntiau ar y ffordd y gall awdurdodau lleol ddefnyddio arian i gynorthwyo datblygiad safleoedd, galwodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru am fwy o gymorth gan Lywodraeth Cymru i helpu awdurdodau lleol i ddod o hyd i dir i'w ddatblygu:

> *"One of my thoughts is the difficulty in securing land and the length of time it takes to do that. So, I imagine that would impact on using the grant, if it's difficult to get that land in the first place, or if it takes so long. There seems to be a real problem identifying suitable land for some local authorities, despite them really trying to identify that land. So, I think that's*

[37] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 14 Awst 2024
[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, Allison Hulmes, Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol Romani a Theithwyr
[39] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 201
[40] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Nodyn o'r grŵp ffocws, 5 Rhagfyr 2024

*definitely something Welsh Government could offer support with."*[41]

## Ceisiadau am y Grant Safleoedd Cyfalaf

**48.** Ar 16 Ionawr 2023, fe wnaeth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol holi yr Ysgrifennydd Cabinet am dynnu'r Grant Cyfalaf Safleoedd i lawr ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Nododd swyddog nad oedd y gyllideb gyfalaf lawn wedi cael ei defnyddio.[42]

**49.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig weinidogol a ddarparwyd i'r Pwyllgor cyn ei sesiwn graffu ddiwethaf gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ym mis Hydref 2023, yn rhoi dadansoddiad o daliadau'r grant dros y pedair blynedd diwethaf:[43]

| Blwyddyn | Dyraniad | Taliad | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| **2020/2021** | 3,500,000 | 1,213,416 | Cafodd COVID effaith fawr ar y taliadau yn y flwyddyn hon. |
| **2021/2022** | 3,500,000 | 2,540,026 | Wedi'i effeithio gan COVID a phrinder staff |
| **2022/2023** | 3,690,000 | 0 | Wedi'i effeithio gan brinder staff |
| **2023/2024*** | 3,190,000 | Amh. | Nid yw'r flwyddyn ariannol wedi'i chwblhau felly nid yw'r ffigurau taliad ar gael. |

**50.** Nid oedd data ar daliadau ar gyfer 2023–24 ar gael bryd hynny, ond clywodd sesiwn graffu ddilynol ar y gyllideb gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 22 Ionawr 2022 gyda'r Ysgrifennydd Cabinet:

*"There have been no applications from local authorities across the whole of Wales for capital funding in this financial year [2023-24]."*[44]

**51.** Ar ôl sawl blwyddyn heb i geisiadau gael eu cyflwyno gan awdurdodau lleol, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau yn ei llythyr o fis Awst 2024 bod 12 cais

[41] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 47
[42] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 16 Ionawr 2023, paragraff 63
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Hydref 2023, papur 3
[44] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024, paragraff 118

wedi dod i law yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, a disgwylir rownd arall o gynigion.[45] Mae tystiolaeth ychwanegol gan yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi y gwnaed 12 dyfarniad i 10 awdurdod lleol.[46]

**52.** Nododd CLlLC yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i:

> *"review, update and clarify some aspects of the capital grant funding guidance has already had the positive effect of supporting a significant increase in the number of applications from Councils.".*[47]

**53.** Dywedodd Cyngor Sir y Fflint bod y broses i sicrhau'r cyllid grant cyfalaf safleoedd yn eithaf llafurus[48] a galwodd iddi gael ei symleiddio[49]. Meddai:

> *"The challenge we have is the additional documents that you have to provide to support a simple process saying, 'We need x to deliver y, and this is how much it's going to cost.' Sometimes it can be very arduous and probably puts us off maybe being a little bit more innovative in our applications because there are so many steps to the process with additional information being provided that that is a problem. And it's also around the window of when the funding is available. For me, it's a 365-day need, and if we identify that something needs to be done, we shouldn't be restricted as to when we can actually make that application based on the window being available for the grant."*[50]

**54.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y newidiwyd y canllawiau o ganlyniad i adborth gan awdurdodau lleol ar y ffaith bod angen iddyn nhw allu prynu tir[51], ac nad yw'r gair 'eithriadol' mor anhyblyg ag y mae'n swnio efallai.[52]

**55.** Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, byddai'n amhriodol i awdurdodau lleol wario'r grant ar safle a oedd angen llawer o waith adfer, adfer tir, neu gostau astudiaeth

[45] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 14 Awst 2024
[46] Tystiolaeth ychwanegol, Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, papur 9
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLlLC
[48] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 170
[49] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 172
[50] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 170
[51] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 314
[52] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 315

ddichonoldeb.[53] O gofio'r gronfa gyfyngedig, clywsom fod Llywodraeth Cymru eisiau i'r arian gael ei wario ar leiniau newydd a chyfleusterau o ansawdd da i'r gymuned. Er gwaethaf hyn, roeddent yn cydnabod yr angen i edrych eto ar y meini prawf ar gyfer y grant.[54]

## Cyflwr safleoedd

**56.** Daeth cyflwr safleoedd awdurdodau lleol i'r amlwg fel y brif thema yn ystod ein grŵp ffocws gydag aelodau'r gymuned. Rhannodd y cyfranwyr enghreifftiau o wahanol raddau o adfeiliad ar safleoedd a disgrifiwyd problemau gyda llygredd a phlâu llygod mawr. Codwyd effaith y materion hyn ar lesiant corfforol a meddyliol y rhai sy'n byw ar y safle gan nifer o gyfranwyr, gydag un yn esbonio ei fod "*yn dinistrio bywydau pobl*."[55]

**57.** Cyhuddwyd awdurdodau lleol o adael i safleoedd ddirywio cyn datrys y problemau. Honnodd cyfranwyr y dylai awdurdodau lleol fod wedi gofalu mwy am y safleoedd o'r cychwyn cyntaf. Yn wahanol i ystâd cyngor, lle ceir amserlen a rhaglen cynnal a chadw, nid yw hynny'n wir ar gyfer safleoedd teithwyr sy'n eiddo i'r awdurdod lleol. Galwodd rhai cyfranwyr ar awdurdodau lleol i ddarparu amserlenni cynnal a chadw ar gyfer pob safle.[56]

**58.** Dywedodd y Gymdeithas Gwaith Cymdeithasol Romani a Theithwyr wrthym:

> *"It is not acceptable and, in our view, inconsistent with human rights and the ambitions of an anti-racist Wales by 2023 that families, including children, elders and those with a disability, continue to live in unsuitable and unhealthy accommodation/sites. Whilst some of the work to repair refurbish accommodation/sites may fall under the grant, the timescales to achieve these is inconsistent with the needs/human rights of community members living under these conditions."*[57]

[53] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 314
[54] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 318
[55] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Nodyn o'r grŵp ffocws, 5 Rhagfyr 2024
[56] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Nodyn o'r grŵp ffocws, 5 Rhagfyr 2024
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, Allison Hulmes, Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol Romani a Theithwyr

**59.** Clywsom alwadau i awdurdodau lleol allu defnyddio'r grant cyfalaf safleoedd i gynnal a chadw safleoedd.[58]

**60.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod llawer o'r cyllid grant sy'n cael ei ddosbarthu eleni ar gyfer ailwampio, yn hytrach nag ar gyfer safleoedd newydd ond mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw cynnal a chadw safleoedd.[59] Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

> *"I think we would prefer that those facilities…are maintained and kept up to scratch, rather than left to deteriorate to the point where they are not fit for purpose and then need capital investment, otherwise we're putting a lot of capital investment in replacing like for like."*[60]

## Ein barn ni

**61.** Ar ôl sawl blwyddyn heb i geisiadau gael eu gwneud gan awdurdodau lleol am y Grant Cyfalaf Safleoedd, roedd yn dda clywed bod y gronfa yn cael ei defnyddio erbyn hyn. Gobeithiwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn monitro'r defnydd o'r cyllid i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o ran darparu safleoedd ac ansawdd y llety, ac i sicrhau bod gwaith datblygu neu ailwampio safleoedd yn diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n monitro'r defnydd o'r Grant Cyfalaf Safleoedd i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio yn briodol ac yn mynd i'r afael ag anghenion Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.

**62.** Rydym yn croesawu'r ffaith fod y meini prawf ar gyfer ceisiadau grant wedi cael eu hehangu i alluogi prynu tir ar gyfer datblygu safleoedd newydd. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu nad oedd awdurdodau lleol a oedd yn darparu tystiolaeth i ni yn ymwybodol o'r estyniad i'r meini prawf. Nodwn hefyd fod y newid i'r meini prawf ar gyfer prynu tir mewn achosion eithriadol.

**Casgliad 3.** Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro'r mathau o achosion eithriadol lle gellir defnyddio'r Grant Cyfalaf Safleoedd i brynu tir, a sut y mae'n bwriadu sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r meini prawf wedi'u diweddaru.

[58] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 209
[59] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 322
[60] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 323

**63.** Clywsom alwadau i'r broses grant cyfalaf safleoedd gael ei symleiddio ac i fwy o hyblygrwydd gael ei ddarparu o ran yr hyn y gellir defnyddio'r grant ar ei gyfer. Fe wnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet gydnabod yr angen i edrych eto ar feini prawf y grant.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r meini prawf a'r broses ymgeisio ar gyfer y Grant Cyfalaf Safleoedd i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

**64.** Nodwn na ellir defnyddio'r grant i gynnal a chadw safleoedd, a bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn credu y dylai hyn barhau i fod yn wir. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig iawn o glywed am safleoedd mewn cyflwr gwael ac effaith hyn ar lesiant corfforol a meddyliol y rhai sy'n byw ar safleoedd o'r fath. Mae angen i awdurdodau lleol flaenoriaethu'r gwaith o gynnal a chadw safleoedd a sicrhau bod unrhyw waith cynnal a chadw yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â’r bobl sy’n byw arnynt. Os na chaiff meini prawf y grant cyfalaf safleoedd eu diwygio i gynnwys gwaith cynnal a chadw, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae’n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud ar safleoedd.

**Casgliad 4.** Byddem yn ddiolchgar pe gallai’r Ysgrifennydd Cabinet egluro a yw'r rhent a delir gan Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd awdurdod lleol wedi'i neilltuo ar gyfer cynnal a chadw a gwella safleoedd, a ble mae'r incwm hwn yn cael ei ddyrannu yng nghyllidebau refeniw awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei wneud, a sut y bydd yn mynd i'r afael â methiant awdurdodau lleol i gynnal a gwella'r safleoedd hynny. Yn rhan o hyn, dylai ystyried sut mae awdurdodau lleol yn ariannu ac yn blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

**65.** Nodwn yr hoffai aelodau'r gymuned fod yn berchen ar eu safleoedd eu hunain a'u rheoli gan alw ar Lywodraeth Cymru i helpu gydag ariannu safleoedd preifat. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gallai’r Grant Cyfalaf Safleoedd gefnogi datblygiad safleoedd preifat.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellid defnyddio’r Grant Cyfalaf Safleoedd i gefnogi datblygiad safleoedd preifat.

# 5. Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

**66.** Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r Cynllun yn nodi nifer o gamau i Lywodraeth Cymru eu gweithredu gyda'r nod o wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030. Ymhlith y camau i'w cymryd, mae sawl un yn ymwneud â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Ei weithred graidd yw:

> *"Cydnabod bod angen llety diogel diwylliannol briodol er mwyn i unigolion ffynnu mewn rhannau eraill o'u bywydau ac er mwyn ymdrin â'r prinder safleoedd a'r llety o ansawdd gwael sydd ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru, ymhlith camau eraill, yn:*
>
> - *comisiynu rhaglen beilot tair blynedd i ddarparu cyngor annibynnol dibynadwy i'r rhai sy'n awyddus i ddatblygu safleoedd preifat;*
> - *adolygu'r polisi cyllido presennol ar gyfer safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ac asesu ei effeithiolrwydd;*
> - *ailddrafftio'r Canllawiau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn sicrhau y caiff anghenion cymunedau o ran dyluniad a lleoliad eu hadlewyrchu'n well yn y ddogfen."*

**67.** Ym mis Mehefin 2023, dywedodd Teithio Ymlaen wrthym:

> *"not one of the actions in the ARWAP [Anti-racist Wales Action Plan] relating specifically to Gypsy, Roma and Traveller accommodation and other areas have been progressed."*[61]

**68.** Dywedodd y Gymdeithas Gwaith Cymdeithasol Romani a Theithwyr hefyd na fwriwyd ymlaen â'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu.[62]

**69.** Dywedodd llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet atom ni ym mis Awst 2024 bod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol "yn cael ei ddiweddaru" a bod swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r gymuned i "drafod y camau

[61] Llythyr gan Teithio Ymlaen, Adroddiad dilynol i'r Ymchwiliad i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, 16 Mehefin 2023
[62] Tystiolaeth ysgrifenedig, Allison Hulmes, Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol Romani a Theithwyr

gweithredu a'r cynlluniau diwygiedig i'w cyflawni".[63] Fodd bynnag, dywedodd y Gymdeithas Gwaith Cymdeithasol Romani a Theithwyr:

> *"These 'stakeholder' consultations seem to have taken place without a transparent process to ensure that the 'stakeholders' are the right ones."*[64]

**70.** Ymhlith yr argymhellion yn ein hadroddiad gwreiddiol a oedd yn sensitif o ran amser oedd yr angen i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau ar gyfer gwasanaeth cyngor annibynnol a dibynadwy ar gyfer y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Nododd Llywodraeth Cymru yn ei hymateb i argymhellion y Pwyllgor y byddai'r broses gaffael ar gyfer gwasanaeth o'r fath yn cael ei chyflawni "dros y tri mis nesaf".[65] Serch hynny, nododd Teithio Ymlaen ei fod wedi rheoli gwasanaeth eiriolaeth a chyngor penodol ers ei sefydlu, ond nad oedd gwasanaeth o'r fath yn debygol o gael ei ail-gomisiynu cyn mis Mawrth 2024.[66]

**71.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet bod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu contract tair blynedd i Teithio Ymlaen i ddarparu eiriolaeth a chymorth i deuluoedd o fis Medi 2024 ymlaen.[67]

**72.** Roedd cyfranwyr yn y grwpiau ffocws o'r farn na fu unrhyw welliant i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr, gydag un cyfrannwr yn disgrifio "*casineb tuag at Sipsiwn."* Eglurodd rhai cyfranwyr y bydd awdurdodau lleol yn aml yn *"osgoi"* ymweld â safleoedd ac yn hytrach yn defnyddio sefydliadau fel Teithio Ymlaen a Sipsiwn a Theithwyr Cymru fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau. Clywsom hefyd y bydd swyddogion y Cyngor yn aml yn methu â mynychu cyfarfodydd a drefnwyd gydag aelodau'r gymuned. Dywedodd rhai eu bod yn cael eu trin fel *"gwrthodedigion"* a *"dinasyddion ail ddosbarth"*, tra bod eraill yn honni bod gan awdurdodau lleol "*ddim diddordeb mewn Sipsiwn*."[68]

---

[63] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 14 Awst 2024
[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, Allison Hulmes, Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol Romani a Theithwyr
[65] Llywodraeth Cymru, Ymateb i'r argymhellion o adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
[66] Llythyr gan Teithio Ymlaen, Adroddiad dilynol i'r Ymchwiliad i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, 16 Mehefin 2023
[67] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 276
[68] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Nodyn o'r grŵp ffocws, 5 Rhagfyr 2024

**73.** Dywedodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru wrthym fod hiliaeth a gwahaniaethu eang yn dal i fodoli tuag at Sipsiwn a Theithwyr a bod angen gwneud llawer mwy o waith i sicrhau bod y gymuned ehangach yn deall am Sipsiwn a Theithwyr a'u hanghenion.[69] Clywsom fod gan lywodraeth leol ran i'w chwarae o ran tawelu ofnau a goresgyn rhwystrau:

> *"You see these protests against sites and it's just racism and prejudice; it's just unacceptable. Where do these fears stem from? What are they so worried about? That needs to be addressed. I definitely think local government could play a part in that. If those fears didn't exist, I think it might be a lot easier to get planning permission and get these sites built and get this community's needs met, which is long overdue."*[70]

**74.** O ran y rhaglen beilot i ddarparu cyngor i'r rhai sy'n ceisio datblygu safleoedd preifat, dywedodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru nad oedd wir yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd â hi.[71] Yn yr un modd, nid oedd cynrychiolwyr o CLlLC yn ymwybodol chwaith.[72] Dywedodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru bod wir angen mynediad at bobl ag arbenigedd mewn cynllunio, gan ychwanegu na fyddai cynifer o broblemau yn codi pe bai Sipsiwn a Theithwyr yn gallu cael mynediad at gymorth cynllunio a oedd wedi'i deilwra yn benodol i'w hanghenion.[73] Wrth drafod yr anawsterau yn sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer eu tir yn ystod ein grŵp ffocws, dywedodd sawl cyfrannwr eu bod wedi cael eu rhwystro ar bob cam. Esboniodd un cyfrannwr nad oedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael cyfrannu na rhannu eu safbwynt yn ystod cyfarfodydd cyngor a galwodd ar Lywodraeth Cymru i ddwyn cynghorau i gyfrif *"a'u dirwyo."*[74]

**75.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw'r rhaglen beilot wedi cael ei chomisiynu eto[75] ac y bydd yn cael ei chaffael yn y flwyddyn ariannol nesaf.[76]

**76.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod y diweddariad i Gynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol yn cael ei ddatblygu gyda chymunedau Sipsiwn,

[69] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 49
[70] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 91
[71] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 63
[72] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 223-226
[73] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 63
[74] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Nodyn o'r grŵp ffocws, 5 Rhagfyr 2024
[75] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 335-336
[76] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 340

Roma, Teithwyr, rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol, a'u bod eisiau canolbwyntio mwy ar gyflawni canlyniadau gweladwy i'r gymuned.[77]

## Ein barn ni

**77.** Rydym yn deall fod Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd. Roeddem yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r gymuned i drafod y camau gweithredu a'r cynlluniau diwygiedig i'w cyflawni. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus iawn o glywed tystion yn dweud na fwriwyd ymlaen â'r un o'r camau gweithredu gwreiddiol yn ymwneud â llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr. O ystyried hyn, hoffem gael sicrwydd yr Ysgrifennydd Cabinet bod y "diweddariad" hwn yn ystyrlon ac y bydd y cymunedau hyn yn gweld cynnydd o'r diwedd.

**78.** Roeddem yn bryderus dros ben o glywed yn ystod ein hymgysylltiad ag aelodau'r gymuned eu bod yn teimlo casineb tuag atynt gan gymunedau ehangach, ond hefyd gan swyddogion awdurdod lleol. Ni ddylid gwneud i neb deimlo fel gwrthodedigion a dinasyddion ail ddosbarth. Mae angen i ni weld gwelliant ar frys i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr, yn y gobaith y bydd hyn hefyd yn gwella dealltwriaeth y gymuned ehangach o anghenion a ffordd o fyw Sipsiwn a Theithwyr.

**Casgliad 5.** Edrychwn ymlaen at glywed pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant ac anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o fewn llywodraeth leol ac ymhlith y gymuned ehangach yn rhan o'i hymateb i Argymhelliad 1 yr adroddiad hwn.

**79.** Rydym yn siomedig nad yw'r rhaglen beilot i ddarparu cyngor i'r rhai sy'n dymuno datblygu safleoedd preifat wedi datblygu. Rydym yn annog yr Ysgrifennydd Cabinet i fwrw ymlaen â hyn yn gyflym a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gynnydd ymhen tri mis.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r rhaglen beilot i roi cyngor i Sipsiwn a Theithwyr sy'n chwilio am gymorth i ddatblygu safleoedd preifat fel mater o frys a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r Pwyllgor ymhen tri mis.

[77] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 348

# 6. Capasiti ac adnoddau

**80.** Yn ystod ein hymchwiliad gwreiddiol, clywsom dystiolaeth nad oedd gan awdurdodau lleol nifer y staff sy'n angenrheidiol â'r sgiliau gofynnol i weithredu'r fframwaith yn effeithiol.

**81.** Ym mis Mehefin 2023, tynnodd Teithio Ymlaen sylw at bryderon ynghylch diffyg blaenoriaethu adnoddau staff yn y maes gwaith hwn.[78]

**82.** Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn derbyn y bu heriau staffio yn Llywodraeth Cymru, a nododd yn ystod ein sesiwn graffu ym mis Hydref 2023 bod y tîm wedi cael ei gryfhau a'i ail-sefydlu.[79]

**83.** Dywedodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru wrthym y gallwch weld gwahaniaeth gwirioneddol yn y flwyddyn ddiwethaf o sut roedd pethau'n flaenorol. Felly'r gobaith yw y bydd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.[80] Nodwyd fodd bynnag y byddai'n wych pe gallai aelodau'r gymuned fod yn y swyddi hyn.[81] Dywedodd y Gymdeithas Gwaith Cymdeithasol Romani a Theithwyr:

> *"This new team has much work to do to establish, trust, deep knowledge of the priorities and in how to properly listen and hear the wide range of Gypsy, Traveller and Roma voices in Wales, as continuity of staffing in this key priority area has been absent."*[82]

**84.** Yn ystod y sesiwn graffu ym mis Hydref 2023, cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd at y ffaith nad oedd problemau staffio wedi'u cyfyngu i Lywodraeth Cymru yn unig, gan nodi:

> *"I think one of the interesting issues about local authorities is the variation in terms of their commitment to having staffing on this front, particularly in their housing departments. Some local authorities have family liaison teams engaging with*

[78] Llythyr gan Teithio Ymlaen, Adroddiad dilynol i'r Ymchwiliad i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, 16 Mehefin 2023
[79] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 97
[80] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 77
[81] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 83
[82] Tystiolaeth ysgrifenedig, Allison Hulmes, Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol Romani a Theithwyr

> *communities. Others engage through housing and planning enforcement teams."*[83]

**85.** Er ei bod yn croesawu'r cynnydd diweddar i gapasiti staffio yn y tîm polisi yn Llywodraeth Cymru, dywedodd CLlLC yn ei thystiolaeth ysgrifenedig am y cynnydd ychwanegol hwn:

> *"not reflected in the position within many Councils, where finance, resource and capacity constraints across a number of service areas are likely to be one of the barriers to delivery at pace."*[84]

**86.** Yn ystod ein sesiynau tystiolaeth lafar, cadarnhaodd cynghorau Ynys Môn[85], Penfro[86] a Sir Fynwy[87] nad oes ganddynt swyddogion cyswllt Sipsiwn a Theithwyr ar hyn o bryd. Roedd galwadau am gymorth refeniw gan Lywodraeth Cymru i recriwtio a chadw staff o ran Sipsiwn a Theithwyr.

**87.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet yn ei thystiolaeth ysgrifenedig y bydd yr heriau o ran staffio ac adnoddau yn cael eu trafod yn y cylch rheolaidd o gyfarfodydd rhwng cynghorau unigol a swyddogion Llywodraeth Cymru.[88] Wrth ymateb i ba un a ddylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth refeniw ar gyfer cyflogi swyddogion dynodedig, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet gydnabod y gwahanol safbwyntiau ar draws awdurdodau lleol ond dywedodd y dylent ystyried hyn fel blaenoriaeth yn ogystal â dyletswydd statudol.[89]

**88.** Wrth ymateb i alwadau i'r fforwm Sipsiwn a Theithwyr gael ei adfer,[90] Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet bod hyn yn rhan o'r camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.[91]

## Ein barn ni

**89.** Rydym yn croesawu'r cynnydd diweddar i gapasiti staffio yn y tîm polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru, a hoffem ddeall sut mae'n adlewyrchu profiad byw Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Hoffem hefyd weld y Fforwm Sipsiwn a

---

[83] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2024, paragraff 100
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLlLC
[85] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 233
[86] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 237
[87] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 230-231
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 3 Hydref 2024, papur 2
[89] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 364
[90] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 110
[91] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 267

Theithwyr yn cael ei adfer. Credwn yn gryf y dylai Llywodraeth Cymru fod yn cymryd pob cam rhesymol i wella ymgysylltiad â'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

**Casgliad 6.** Byddem yn croesawu datganiad ar sut mae'r tîm polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu profiad byw Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru adfer y Fforwm Sipsiwn a Theithwyr ar frys.

**90.** Rydym yn parhau i fod yn bryderus am adnoddau mewn llywodraeth leol. Dylai sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu diwallu fod yn flaenoriaeth i bob awdurdod lleol, a dylent sicrhau capasiti ac arbenigedd digonol i ymgysylltu'n effeithiol â'r cymunedau hyn. O ystyried yr amrywiad presennol ymhlith awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd, y capasiti a'r adnoddau angenrheidiol i ddiwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan bob awdurdod lleol Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr.